

SICRHAU BOD CYFIAWNDER YN GWEITHIO I BOBL CYMRU: YMATEB ODDI WRTH MY DEATH, MY DECISION.

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad /
Legislation, Justice and Constitution Committee

Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru /
Making Justice work in Wales

MJW 08

Ymateb gan: My Death, My Decision
Response from: My Death, My Decision

Mehefin 2020

Am fwy o fanylion, gwybodaeth a thystiolaeth, cysylltwch gyda:

Carrie Hynds

Associate Director

www.mydeath-mydecision.org.uk

Am My Death, My Decision

Corff ar-lawr-gwlad dibroffid yw My Death, My Decision sydd yn ymgyrchu dros gyfreithloni cymorth i farw yn Lloegr a Chymru. Fel mudiad cynyddol, rydym ar flaen y gad o ran newid cymdeithasol: mae bron 90% o'r cyhoedd nawr yn cefnogi newid yn y gyfraith i ganiatáu oedolion iach o ran meddwl, sydd naill ai yn gleifion terfynol wael neu yn wynebu dioddefaint anwelladwy, y dewis o farwolaeth dawel, ddi-boen ac urddasol.¹

Mae My Death, My Decision yn credu na ddylid cyfyngu cymorth i farw cyfreithlon i'r rheiny sydd ond â chwe mis neu lai i fyw. Rydym yn credu fel y mae tosturio wrth eraill wedi ysgogi pobl i gefnogi cymorth i farw ar gyfer cleifion terfynol wael, y dylid rhoi cefnogaeth i'r rheiny sy'n wynebu dioddefaint annioddefol ac anwelladwy. Trwy waith ein haelodau, cefnogwyr, noddwyr a gweithredwyr, rydym yn helpu i ledaenu'r trafod cyhoeddus ar gymorth i farw a cheisio sicrhau newidiadau yn y gyfraith.

Ein Methodoleg

O fewn yr ymateb hwn i'r ymchwiliad, mae My Death, My Decision yn gwneud sylwadau ar yr effaith anghymesur ymddangosiadol y gallai'r gyfraith gyfoes sy'n gwrthwynebu cymorth i farw gael ar Gymru. Mae dau bwynt rhagarweiniol dylid eu gwneud am y sylwadau hyn. Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi bod ein rhifau yn debygol o fod yn geidwadol gan eu bod yn seiliedig ar ystadegau a rhyddhawyd i ni ar y nifer o bobl deithiodd o'r DU i'r corff Dignitas yn y Swistir. Felly, o ganlyniad dydy'n rhifau ddim yn cynnwys y rheiny sy'n teithio i gyrff gwahanol fel Lifcircle, EX International, neu Pegasos. Yn sgil hyn, mae hefyd felly yn bwysig cydnabod bod ein sylwadau yn rhai dros dro, gan ein bod yn cydnabod y bydd angen archwiliad pellach.

Ein Hargymhelliad

Rydym yn hapus i ymateb i ymchwiliad pwysig y Senedd ac i rannu ein hargymhelliad i gefnogi caniatáu Cymru i drefnu ei chyfraith ei hunan ar gymorth i farw cyfreithiol, diogel a thosturiol.

Rydym yn cefnogi safbwynt yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd a'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ac yn credu y dylid trosglwyddo'r pwerau i reoli cyfiawnder a phlismaona i'r Senedd. Rheswm anorfod arbennig i wneud hynny byddai i alluogi'r Senedd i ddelio gydag un o'r anghyfiawnderau mwyaf dybryd sy'n effeithio Cymru ar hyn o bryd: y gwaharddiad ar gymorth i farw.

Mae bellach dystiolaeth anorfod i gefnogi newid yn y gyfraith fyddai'n caniatáu oedolion yn iach eu meddwl, sydd naill ai yn anwelladwy neu yn wynebu dioddefaint annioddefol, y dewis o gymorth i farw; yn amodol ar amddiffyniadau grymus. Eto, hyd yn oed petai Cymru'n dewis peidio diwygio'r gyfraith, ein barn ninnau yw y dylai'r hawl i wneud y fath ddewis fod yn nwylo'r Senedd. Felly, o ran achos pryder, rydym yn argymhell y Senedd i geisio hawlio trosglwyddo'r cwestiwn penodol hwn i'w swyddogaeth deddfwriaethol ddatganoledig.

1 Mae ymchwil newydd yn dangos bod hyd at 93% o bobl yn gweld cymorth i farw yn dderbyniol mewn o leiaf rhai sefyllfaoedd hyd yn oed os yn anaml: National Centre for Social Research (2019) i'w weld ar: <https://www.mydeath-mydecision.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Briefing-on-NatCen-assisted-dying-poll.pdf>

Mae ein hargymhelliad yn seiliedig ar dri ffactor.

1) Bod anallu'r Senedd i benderfynu ar gyfreithlondeb cymorth i farw yn ei osod yn groes i lywodraethau datganoledig eraill y Deyrnas Unedig.

Fel mater o egwyddor gyffredinol, barn My Death, My Decision yw y dylai cyfreithlondeb y Senedd fod, neu o leiaf yn cael ei weld yn bod, yn gyfartal â chyfreithlondeb llywodraethau datganoledig eraill ar draws y Deyrnas Unedig a thriogaethau dibynnol y Goron. Mae hyn oherwydd dau reswm. Yn gyntaf, yn dilyn datganoli pwerau deddfu ychwanegol, yn bennaf ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae rôl y Senedd bellach yn ddadleuadwy gyfartal i hwnnw sydd gan Seneddau eraill ar draws y Deyrnas Unedig; pwynt a nodwyd yn symbolaidd ym mis Mai 2020 pan newidiodd y Cynulliad i fod yn Senedd. Yn ail, rydym yn cydnabod bod cefnogaeth y cyhoedd yng Nghymru i awdurdodaeth ddeddfwriaethol neilltuol, fel y dangoswyd gan 63.49% o etholwyr yn pleidleisio "ie" yn Refferendwm Datganoli Cymru 2011; ac rydym yn credu felly mae'n anorfod gywir, fel mater o egwyddor, y dylai'r Senedd feddu ar gymwysterau cyfatebol i Seneddau eraill ar draws y Deyrnas Unedig, fel ym meysydd cyfraith a chyfiawnder.

Tu hwnt i'r sylw cyffredinol hwn, rydym yn credu bod yna achos datganoledig penodol i gefnogi cymorth i farw. Erbyn hyn mae yn hir-sefydlog bod rhai cwestiynau moesol goddrychol yn syrthio tu mewn i ffiniau deddfwriaethol y llywodraethau datganoledig. Er enghraifft, mae'r categori hwn o gwestiynau yn cynnwys rheoleiddio erthyly a rhoi organau.. Cwestiwn arall sy'n ffitio i mewn i'r categori hwn yw cyfreithloni cymorth i farw. Felly, yn hanesyddol bu gwahanol ddeddfwriaethau yn meddu ar yr hawl i bennu eu cyfraith eu hunain ar y mater hwn, heblaw yn achos Cymru.² O edrych ar statws cymharol y Senedd fel corff deddfwriaethol, rydym yn credu y byddai gosod cysondeb o'r egwyddor hon hefyd yn caniatáu'r Senedd ei hunan i ddeddfu ar gymorth i farw.

Tra'n rhoi annhegwch sylfaenol y trefniant presennol i'r naill ochr, rydym yn credu bod dau reswm egwyddorol arall pam fod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol.

Yn gyntaf, mae'n wahaniaeth sylweddol rhwng safbwyntiau'r cyhoedd yng Nghymru a gweddill y DU ar gymorth i farw. Er bod diwygio cymorth i farw, ar gyfer y rheiny sy'n anwelladwy neu'n wynebu dioddefaint annioddefol, yn derbyn cefnogaeth ysgubol yn Lloegr a Chymru, mae'n berthnasol nodi i arolwg gan NatCen yn 2019 ganfod tra bod 88% o'r Deyrnas Unedig yn ei chyfarwydd yn cefnogi cymorth i farw, o leiaf dan rai amgylchiadau, cynyddodd hyn i 93% ar gyfer ymatebwyr o Gymru.³ O dderbyn mai nod cyffredinol datganoli yw cydnabod falle bod gan etholwyr Cymreig safbwynt gwahanol i weddill y DU, ac felly yn meddu ar yr hawl i ddeddfu'n wahanol ar y mater yna, onid yw'n anochel os oes gan yr etholwyr Cymreig agwedd wahanol ar gwestiwn moesol goddefol, mae pwysigrwydd gallu'r Senedd i ddeddfu ar y cwestiwn hwnnw yn tyfu'n fwy arwyddocaol fyth?

Felly mae anallu Cymru i ddeddfu yn unol â dymuniadau ei hetholwyr yn annheg, ac mae'r annhegwch hwn yn cynyddu oherwydd y ffaith mai hwn yw'r unig lywodraeth lle mae'r sefyllfa yn bodoli.

Ond hyd yn oed ymhellach na hyn, hyd yn oed petai'r etholwyr Cymreig ddim am newid y ddeddfwriaeth ar gymorth i farw, mae anghyfiawnder gwrthgyferbyniol anallu'r Senedd i wneud y dewis hwnnw yn dwysáu gan fod gan San Steffan fetto effeithiol. Er enghraifft, dan y trefniannau cyfansoddiadol presennol, ni ellir newid Deddf Hunanladdiad 1961 (sy'n gwahardd cymorth i farw yn Lloegr a Chymru) ond gyda chefnogaeth 326 AS (neu fwyafrif syml) yn San Steffan. Felly mae'n amhosib i'r etholwyr yng Nghymru, sy'n meddu ar bersbectif gwahanol i'r etholwyr yn Lloegr, byth i ddeddfu i newid y gyfraith, neu i'r gwrthwyneb i atal newid y gyfraith, oherwydd dim ond 40 AS sy'n cynrychioli etholaethau Cymreig. Mewn gair, golyga hyn bydd unrhyw newid yn y gyfraith dros Gymru bob amser yn ddibynnol ar safbwyntiau etholwyr Seisnig neu eu cynrychiolwyr etholedig.

Golyga hyn, tra bod'n ddealltwriaeth eang y gall gwahanol bobl anghytuno'n rhesymol ynglŷn â chyfreithloni cymorth i farw (ac mewn cydnabyddiaeth o hyn, gall bron pob gweinyddiaeth ddatganoledig bennu ei chyfraith ei hunan), dydy'r Senedd ddim yn meddu ar yr awdurdod hwn er bod y mwyafrif llethol o'r cyhoedd yn ffafrio cymorth i farw; gydag etholwyr Seisnig yn meddu ar fetto effeithiol dros y gyfraith yng Nghymru. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, rydym yn credu ei bod yn anghywir o ran egwyddor na all Cymru bennu ei chyfraith ei hunan ar gymorth i farw.

2 Yng Ngogledd Iwerddon mae'r gyfraith ar gymorth i farw yn cael ei reoli gan Adran 5,12,13,13A, a 13B o'r Criminal Justice (Northern Ireland) Act 1966. Does'n ddim trosedd statudol yn yr Alban o roi cymorth i rywun arall farw ac yn lle hynny rheolir y weithred gan gyfraith wladol yr Alban ar ddynladdiad. Ar Ynys Manaw gwaharddir cymorth i farw dan Adran 2(1) o'r Criminal Law Act 1981; yn achos Jersey a Guernsey, mae'r ddwy ddibynwlad yn meddu ar yr hawl i basio deddfwriaeth sylfaenol i newid y gyfraith ar gymorth i farw, ond byddai angen sêl bendith Pwyllgor y Cyfrin Gyngor ar Faterion Jersey a Guernsey. Yn gyferbyniol, mae Adran 2(1) a 2(2) Deddf Hunanladdiad 1961 yn gwahardd cymorth i farw yn Lloegr a Chymru.

3 *Ibid no.1*. Fodd bynnag, rhaid cyfaddef bod maint y sampl yng Nghymru yn llai na Lloegr.

2) Anallu'r Senedd i bennu cyfreithlondeb risgiau cymorth i farw yn tansilio effeithiolrwydd gofal diwedd bywyd.

Fel y crybwyllwyd uchod, safbwynt My Death, My Decision yw bod anallu'r Senedd i bennu cyfraith Cymru ar gymorth i farw yn annheg o ran egwyddor. Rydym yn credu, fodd bynnag, bod datganoli tameidiog dewisiadau diwedd bywyd yng Nghymru hefyd yn esgor ar oblygiadau ymarferol difrifol.

Safbwynt My Death, My Decision yw, fel gofal lliniarol, dylid gweld y dewis o gymorth i farw cyfreithiol a diogel fel hawl gofal iechyd sylfaenol. O ganlyniad, nid ydym yn gweld gofal lliniarol o safon uchel a chymorth i farw fel dewisiadau nad ydynt yn cydfynd, ond fel ffurfiau cyflenwol o gymorth sy'n bodoli ar sbectwm o ddewisiadau diwedd bywyd. O dderbyn hyn, rydym yn credu, gan fod gan Gymru yr awdurdod i bennu ei chyfraith a pholisi ar rai cwestiynau diwedd bywyd, sef gofal lliniarol,⁴ mae'n hollol afresymegol nad yw'r Senedd yn meddu ar yr un awdurdod dros gwestiynau diwedd bywyd eraill, fel y ddeddfwriaeth ar gymorth i farw.

Mae hyn yn bodoli oherwydd, er gwaetha ymdrechion gorau gofalwyr lliniarol proffesiynol Cymru a lefelau mwyaf erioed o fuddsoddi mewn gofal hosbis, rydym yn cydnabod ei fod yn anochel bod gan feddygaeth liniarol ei chyfyngiadau. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dydy hyn ddim yn gwadu nad oes angen ymestyn gofal lliniarol ymhellach, na bod mwy i'w wneud o ran ei gyllido,⁵ mae ond yn gydnabyddiaeth na ellir lleddfu rhai ffurfiau o ddiodeffaint a rhai cyflyrau meddygol gan ofal lliniarol yn unig. Er enghraifft, gwelodd astudiaeth ddiweddar gan yr Office of Health Economics tra falle mai dim ond 1,048 o bobl sy'n marw yng Nghymru yn dioddef o boen diymgeledd llwyr, mae bron saith gwaith mwy o bobl (7,137) yn marw gyda'u poen wedi ei lleddfu'n rhannol, hyd yn oed os ydynt yn derbyn cymorth lliniarol.⁶ Yn wir, mae'r broblem hon ond yn debygol o waethygu wrth i boblogaeth Cymru heneiddio a thyfu'n fwy tueddol o afiachusrwydd torfol, fel mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn dangos sy'n debygol, o herwydd amcangyfrifir erbyn 2039 bydd y nifer o bobl dros 65 mlwydd oed 40% yn uwch nag oedd yn 2014.

O ganlyniad i hyn, rydym yn credu gallai effeithiolrwydd cyflawn gofal diwedd bywyd yng Nghymru gael ei danseilio gan anallu'r Senedd i ddeddfu a rheoleiddio cymorth i farw. Mae hyn oherwydd mewn awdurdodaethau lle mae cymorth i farw yn gyfreithlon, mae tystiolaeth bod y dewis o gymorth i farw yn gallu torri rhai o'r cyfyngiadau mewn meddygaeth liniarol. Er enghraifft, gan fod meddygaeth liniarol yn driniaeth poen-ogwyddol, mae'n aml yn anffafriol i ddelio gyda ffurfiau eraill o ddiodeffaint sy'n meddu ar gymeriad dirfodol, e.e. colli annibyniaeth. Ond mae data o Oregon, sy'n dangos bod traean o'r holl ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gymorth i farw ddim wedyn yn mynd yn eu blaen ar ôl cael eu derbyn,⁷ yn awgrymu y gallai cymorth cyfreithlon i farw fod yn fodd i ryddhau'r tensiynau hyn a hyd yn oed ysgogi pobl i barhau i dderbyn gofal lliniarol.

Ym mhrofiad My Death, My Decision, mae llawer o bobl sydd wedi derbyn caniatâd i gael cymorth i farw yn y Swistir yn adrodd fod y wybodaeth y gallent ddiweddu eu bywyd petai eu diodeffaint yn datblygu'n annioddefol yn ddigon iddynt barhau i fyw. Felly, fel mae Gogledd Gwlad Belg wedi arddangos ers dros ddegawd, rydym yn credu bod gofal diwedd bywyd yn gweithio orau pan fod gofal lliniarol a chymorth cyfreithlon i farw yn bodoli gyda'i gilydd. Er enghraifft, bydd dros 70% o'r bobl sy'n gofyn am gymorth i farw yn Rhanbarth Fflandrys yng Ngwlad Belg wedi defnyddio'r opsiynau gofal lliniarol ymlaen llaw,⁸ ac yn Oregon, mae bron 90% o gleifion yn derbyn gofal lliniarol cyn gofyn am gymorth i farw.¹¹

4 Marie Curie, 'Gofal Lliniarol a Chenhedloedd y DU: anghenion asesu, polisi a strategaeth wedi'u diweddarau: goblygiadau i Gymru'. Yn hygyrch yn: <https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/marie-curie-reports/state-of-the-nation-report-wales-english.pdf>

5 Yn wir, mewn awdurdodaethau sydd wedi cyfreithloni cymorth i farw, yn nodedig Canada, mae'n achos yn aml bod mynediad i a nawdd ar gyfer gofal lliniarol yn gwella ochr-yn-ochr gydag unrhyw newid yn y gyfraith. O dderbyn bod cymorth i farw cyfreithlon yn arwain yn aml at sgysiaid diwedd-bywyd yn datblygu'n dderbyniol, mae'n bwysig bod gofal lliniarol yn gwella ochr-yn-ochr â chymorth i farw cyfreithlon er mwyn sicrhau y gall pobl wneud penderfyniadau deallus seiliedig ar bob opsiwn sydd ar gael.

6 B. Zamora et al, 'Poen Anniogel mewn Gofal Lliniarol yn Lloegr', Y Swyddfa Economeg Iechyd (2019). Yn hygyrch yn: <https://www.ohe.org/publications/unrelieved-pain-palliative-care-england>

7 Hospice UK, 'Hospice Care in Wales 2018' (2018). Yn hygyrch yn: [https://www.hospiceuk.org/docs/default-source/Policy-and-Campaigns/briefings-and-consultations-documents-and-files/hospice-care-in-wales-report-2018-\(english\)_web.pdf?sfvrsn=2](https://www.hospiceuk.org/docs/default-source/Policy-and-Campaigns/briefings-and-consultations-documents-and-files/hospice-care-in-wales-report-2018-(english)_web.pdf?sfvrsn=2)

8 Mae'n werth nodi mai yn awdurdodaethau sydd wedi cyfreithloni cymorth i farw, y rheswm unigol mwyaf cyffredin dros ofyn am gymorth i farw yw 'colli annibyniaeth' (90.6% ar gyfartaledd o ymgeiswyr yn Oregon), yn cael ei ddilyn yn agos gan 'gollu urddas' (74.4% ar gyfartaledd) a'r 'anallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn gwneud bywyd yn bleserus' (89.1% ar gyfartaledd). Yn gyferbyniol, noda meddygon yn Oregon mai dim ond 25.7% o ymgeiswyr ar gyfartaledd sy'n cael eu hysgogi gan ryddhad annigonol o boen, sy'n awgrymu nad yw gofyn am gymorth i farw yn deillio o ryddhad annigonol o boen ond yn hytrach oherwydd ffurfiau eraill o ddiodeffaint di-boen. Yn wir, mae hyn wedi ei gadarnhau mewn archwiliad diweddar yng Nghanada, ddaeth i'r casgliad ei bod yn annhebyg bod ymgeiswyr yn ceisio cymorth i farw oherwydd mynediad annigonol i ofal lliniarol. Gweler n8 a J Downer et al, 'Early experience with medical assistance in dying in Ontario, Canada: a cohort study' CMAJ February 24, 2020 192 (8) E173-E181 Ar gael ar: <https://www.cmaj.ca/content/192/8/E173>

9 Oregon Health Authority, 'Oregon Death with Dignity Act: Data Summary 2018', Public Health Division, Centre for Health Statistics (2019). Accessible at: <https://www.oregon.gov/oha/PH/PROVIDERPARTNERRESOURCES/EVALUATIONRESEARCH/DEATHWITHDIGNITYACT/Documents/year21.pdf>

10 S Dierickx et al, 'Involvement of palliative care in euthanasia practice in a context of legalized euthanasia: A population-based mortality follow-back study', Palliat Med. 2018 Jan; 32(1):114-122, accessible at: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC5758933/>

11 *Ibid* no.9

Oherwydd hyn, rydym yn credu nad yw hi yn gwneud synnwyr i Gymru gael ei hatal rhag penderfynu ar ei chyfraith ei hunan ar gymorth i farw, oherwydd gellid dadlau fod yr anallu i ddarparu un ffurf o gymorth diwedd bywyd yn tanseilio effeithiolrwydd cyflawn ei strategaeth gofal.

3) Mae'n ymddangos bod y gwaharddiad ar gymorth i farw yn Lloegr a Chymru yn cael effaith anghyfartal ar Gymru.

Yn wahanol i 10 awdurdodaeth yn Unol Daleithiau America, taleithiau Victoria a Gorllewin Awstralia, Colombia, Y Swistir, Yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, Lwcsembwrg, Yr Almaen, Yr Eidal a Canada, lle caniateir cymorth i farw mewn rhyw ffurf neu'i gilydd, erys cymorth i farw yn anghyfreithlon yng Nghymru a gweddiill y DU. Yn wir, o dan Adran 2(1) a 2(2) o'r Ddeddf Hunanladdiad 1961 gall unrhyw un sy'n ei gael yn euog o roi cymorth i rywun arall i farw wynebu hyd at 14 blynedd o garchar.

Eto, er gwaethaf y gwaharddiad cyflawn ar gymorth i farw, mae ymchwil oddi wrth yr UK Assisted Dying Coalition (y mae My Death, My Decision yn aelod sefydlol ohono) wedi darganfod bod mwy nag un person yr wythnos yn teithio o'r DU i'r Swistir i dderbyn cymorth i farw.¹²

Yn ein tyb ni, mae'r casgliadau hyn yn dangos nad yw'r gyfraith bresennol yn Lloegr a Chymru yn gweithio – yn hytrach mae'n gyrru y rheiny sydd naill ai yn eu gwaeledd olaf neu yn wynebu dioddefaint anwelladwy dramor neu yn ddirgel. Mae ystadegau pellach a ryddhawyd i ni yn arddangos bod y gwaharddiad presennol yn cael effaith anghyfartal ar Gymru:

- Mae'r gyfran o bobl sy'n teithio o Gymru i'r Swistir i dderbyn cymorth i farw yn ddemograffeg sy'n cynyddu ymhlith y cyflymaf; ac ers 2014 mae'r nifer o bobl sy'n teithio o Gymru wedi mwy na dyblu.¹³
- Yn berthnasol i boblogaeth Cymru fel canran o'r Deyrnas Unedig, bu nifer o flynyddoedd pan oedd y rheiny deithiodd o'r DU am gymorth i farw yn drigolion anghymesur yn byw yng Nghymru.¹⁴

Tra ei bod falle yn rhy gynnar i wneud sylwadau pendant, rydym yn credu gallai'r risg y byddai Deddf Hunanladdiad 1961 yn ymarferol gael canlyniadau anghyfartal yng Nghymru warantu'r Senedd gael yr hawl i archwilio a rheoleiddio ei chyfraith ei hunan.

Felly, fel rhywbeth sydd o bwys, rydym yn argymhell y Senedd i ofyn am i'r cwestiwn penodol o gymorth i farw i gael ei drosglwyddo i mewn i'w grymoedd datganoledig.

I grynhoi, rydym yn credu ei bod hi yn amser i Gymru gymryd safiad arweiniol ar gymorth i farw cyfreithlon, diogel a thosturiol ar gyfer y rheiny sy'n dioddef yn anwelladwy neu yn eu gwaeledd olaf, fel y mae Cymru wedi gwneud ar gwestiynau tebyg o'r blaen. Rydym, wrth gwrs, yn cydnabod falle bydd eraill yn anghytuno. Eto, o dderbyn bod y gyfraith bresennol:

- (i) yn gwrthod i Gymru yn anghyfiawn yr un grymoedd ag awdurdodaethau datganoledig eraill; ac
- (ii) (o ystyried materion eraill sydd wedi'u datganoli'n barod) yn gwahanu yng Nghymru elfen allweddol o'r sbectrwm hollgynhwysfawr o ofal diwedd bywyd, y dylai fod yn rhan cyflawn ohono; ac
- (iii) yn gallu effeithio'n anghyfartal ar bobl yn byw yng Nghymru,

rydym yn credu bod rheswm cryf dros Gymru o leiaf gael yr awdurdod i bennu ei chyfraith ei hunan.

O'r herwydd, rydym yn argymhell yn gryf bod y Senedd yn galw ar San Steffan i ddatganoli'r mater cyfiawnder penodedig o gymorth i farw i'r Senedd.

12 Assisted Dying Coalition, 'Briefing: Number of UK citizens going to Switzerland to seek an assisted death' (2018). Accessible at: https://humanism.org.uk/wp-content/uploads/2019-2-1-KM-Assisted-Dying-Briefing_-_Number-of-UK-citizens-going-to-Switzerland-to-see-an-assisted-death-1.pdf

13 Yn ôl ystadegau a ryddhawyd i My Death, My Decision, teithiodd naw person o Gymru i Dignitas rhwng 2002 a 2013. Mae hyn yn golygu cyfartaledd o 0.6 ymwelydd y flwyddyn. Mewn cymhariaeth, rhwng 2014 a 2020 rydym yn deall bod wyth person wedi teithio i Dignitas, sy'n golygu cyfartaledd o 1.3 ymwelydd bob blwyddyn.

14 Yn ôl EuroStat a ffigyrau o'r Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, cyfrifai poblogaeth Cymru 5.9% o'r DU yn 2014, ond 6.8% o'r rheiny deithiodd o'r DU i Dignitas yn yr un flwyddyn. Yn ôl EuroStat a ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd poblogaeth Cymru yn cyfrif am 5.9% o'r DU yn 2014, ond 6.8% o'r rhai a deithiodd o'r DU i Dignitas yn yr un flwyddyn.